OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 Rhif 223 (Cy. 87)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau, Gweithdrefn a Chyhoeddi) (Cymru) 2016

Gwnaed - - - -	*23 Chwefror 2016*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*25 Chwefror 2016*
Yn dod i rym - -	*28 Mawrth 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 37(7)(a), 37(7)(c), 38(2)(b), 38(3) a 40(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau, Gweithdrefn a Chyhoeddi) (Cymru) 2016 a deuant i rym ar 28 Mawrth 2016.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "Deddf 2015" ("*the 2015 Act*") yw Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ac mae cyfeiriadau at adrannau yn gyfeiriadau at adrannau o'r Ddeddf honno; a

(b) ystyr "Rheoliadau 2015" ("*the 2015 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015(**2**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Y cyfnod hwyaf y caniateir iddo gael ei bennu mewn hysbysiad o dan adran 37 o Ddeddf 2015

2. Y cyfnod hwyaf y caniateir iddo gael ei bennu mewn hysbysiad o dan adran 37 yw blwyddyn.

Y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â thynnu'n ôl hysbysiad o dan adran 37 o Ddeddf 2015

3.—(1) Caiff CCAUC dynnu'n ôl hysbysiad a roddir o dan adran 37 drwy roi hysbysiad tynnu'n ôl i gorff llywodraethu'r sefydliad.

(2) Rhaid i hysbysiad tynnu'n ôl o dan baragraff (1)—

(**1**) 2015 dccc 1.
(**2**) O.S. 2015/1485 (Cy. 164).

(a) bod yn ysgrifenedig;

(b) bod wedi ei ddyddio; ac

(c) hysbysu corff llywodraethu'r sefydliad am y rhesymau dros dynnu'n ôl yr hysbysiad o dan adran 37.

(3) Y dyddiad y caiff hysbysiad o dan adran 37 ei dynnu'n ôl yw dyddiad yr hysbysiad tynnu'n ôl.

4. Os yw CCAUC wedi rhoi hysbysiad tynnu'n ôl o dan reoliad 3, rhaid iddo roi copi o'r hysbysiad tynnu'n ôl i Weinidogion Cymru ar unwaith.

Y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â rhoi hysbysiad o dan adran 38 o Ddeddf 2015

5. Yn ddarostyngedig i reoliad 6, mae'r darpariaethau a ganlyn yn gymwys mewn cysylltiad â rhoi hysbysiad o dan adran 38—

(a) adrannau 42 i 44; a

(b) rheoliadau 2 i 10 o Reoliadau 2015.

6. Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2015 i gael ei ddarllen fel pe bai—

(a) "hysbysiad o dan adran 38 o Ddeddf 2015" wedi ei roi yn lle "hysbysiad neu gyfarwyddyd a bennir yn adran 41(1) o Ddeddf 2015"; a

(b) y geiriau "neu'r cyfarwyddyd" ym mharagraffau (a) i (c) wedi eu hepgor.

Cydymffurfedd gan CCAUC ag adran 40(1) o Ddeddf 2015

7. Os yw CCAUC yn rhoi hysbysiad o dan adran 37, 38 neu 39, rhaid iddo—

(a) rhoi copi o'r hysbysiad i Weinidogion Cymru ar unwaith; a

(b) cyhoeddi copi o'r hysbysiad ar ei wefan o fewn y cyfnod o saith niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i gorff llywodraethu'r sefydliad.

8. At ddibenion rheoliad 7—

(a) mae hysbysiad o dan adran 37 neu 39 i gael ei drin fel pe bai wedi ei roi gan CCAUC yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau 2015; a

(b) mae hysbysiad o dan adran 38 i gael ei drin fel pe bai wedi ei roi gan CCAUC yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau 2015 fel y'i cymhwysir, gydag addasiadau, gan reoliadau 5(b) a 6 o'r Rheoliadau hyn.

9. Mae copi o hysbysiad o dan adran 37 a gyhoeddir ar wefan CCAUC o dan reoliad 7(b) i aros ar y wefan honno tan y cynharaf o—

(a) diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad o dan adran 37(2); neu

(b) dyddiad yr hysbysiad tynnu'n ôl a roddir gan CCAUC o dan reoliad 3 i gorff llywodraethu'r sefydliad mewn cysylltiad â'r hysbysiad hwnnw.

10. Mae copi o hysbysiad o dan adran 38 neu 39 a gyhoeddir ar wefan CCAUC o dan reoliad 7(b) i aros ar y wefan honno tan y dyddiad y byddai'r cyfnod yr oedd y cynllun ffioedd a mynediad perthnasol yn ymwneud ag ef wedi dod i ben oni bai am yr hysbysiad.